Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanfihangel Ystrad a gynhaliwyd ar Nos Fawrth, 11eg Chwefror, 2020 am 7.30pm yn Neuadd Dihewyd.

PRESENNOL

Cynghorwyr : Alan Henson, (Cadeirydd), Lynford Thomas, Harry Williams, Haf Hughes, Gerwyn Owen, Johnny Davies, Lyn Williams, Daniel Evans, Hywel Ifans

1.YMDDIHEURIADAU Y Cyng. Owen Llywelyn, Glyn Davies.

2. PERSONOL

Estynwyd cydymdeimlad i'r Clerc ar golli ei thad ddechrau mis Ionawr.

3. DATGELU BUDDION PERSONOL Ni ddatgelwyd buddion personol.

4. **COFNODION**

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod 10fed Rhagfyr, 2019 yn gywir. Cynigiwyd gan Y Cyng. Johnny Davies ac eiliwyd gan Y Cyng. Lynford Thomas.

5. MATERION YN CODI

i. **Arosfan Bws Cribyn** (10.ii Rhagfyr). Yn dilyn sgwrs â Tony Bretland, **penderfynwyd** gofyn i Richard Thomas i ymgymryd â'r gwaith o beintio'r arosfan. Bydd y Clerc yn cysylltu â Richard.

ii **Arwyddion Dihewyd**. (8.iv Tachwedd). Anfonwyd neges bellach at Adran y Priffyrdd yn nodi pryder ynglŷn â'r ffaith nad ydym wedi derbyn y wybodaeth a ofynwyd amdani a hyn yn golygu nad ydym yn medru cyflawni ein cynlluniau ar gyfer gwariant Praespet 2019-20. Gofynwyd i'n Cynghorydd Sir, Lynford Thomas i edrych mewn i'r mater a cheisio cael ymateb i'r ymholiad.

iii. **Band Eang Bythynnod Gwyliau.** (12.iii. Tachwedd) Ni chafwyd ymateb i'r llythyr a anfonwyd i BT(Openreach). **Penderfynwyd** i'r Clerc 'neud ymholiadau pellach er mwyn cael ymateb i'r ymholiad.

iv. **Cynrychiolaeth Llywodraethwyr Ysgol Felinfach** (12.i Hydref) Cadarnhaodd y Clerc bod y llythyr uchod wedi cyrraedd a chynigiwyd enw Y Cyng. Harry Williams i gynrychioli'r cyngor am dymor arall fel a gytunwyd yng nghyfarfod mis Hydref 2019.

6. **ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIR**

Cafwyd adroddiad gan Y Cyng. Lynford Thomas am y digwyddiadau amrywiol bu'n mynychu yn ystod misoedd Rhagfyr a Ionawr yn cynnwys agoriad swyddogol canolfan Ymatebwyr Cyntaf yn Aberaeron a Chyfarfod Rhanbarthol Un Llais Cymru yng nghwmni Comisiynydd Heddlu Dyfed Powys. Nododd y bydd codiad o 4% yng nghyllideb y Cyngor eleni ond na fyddai toriadau i staff na gwasanaethau yn sgil hynny. Cadarnhaodd hefyd bod Gwasanaeth Cerdd y Sir yn ddiogel. Soniodd hefyd am gais cynllunio A190787 Tŷ fforddiadwy Feinog Uchaf, Dihewyd a drafodwyd ac a gefnogwyd yng nghyfarfod Tachwedd 2019 sydd wedi ei gyfeirio i'r Cynulliad.

7. **CYLLID**

Cytunwyd i dalu'r isod:

i. Cyflog y Clerc am fis Ionawr £153.26 (treth o £38.40 i'w dalu yng nghyfnod 4)

ii. Costau Clerc (Hydref – Ionawr) £16.80

iii. Mr. Michael Morgans - Ad-daliad nwyddau diffbriliwr £73.80 (TAW £12.30)

iv. Un Llais Cymru – Aelodaeth 2020-21 £234.00.

8. CYNLLUNIO

i. **A200036 Adeiladu 5 uned glampio Maesmynach, Cribyn.** Yn dilyn trafodaeth am y cynlluniau, penderfynwyd yn unfrydol cefnogi'r cais.

9. **GOHEBIAETH.**

i. Derbyniwyd llythyron diolch wrth;

Ysgol Sul Ystrad (£300), WASPI (£25.00) Ysgol Feithrin Felinfach (£400)

Noah's Ark a Thystysgrif (£100)

10. **UNRHYW FATER ARALL**

I. Mae'r dŵr ar hewl Arfryn i Bwlch yn dal i achosi problemau gyda'r tywydd oer**. Penderfynwyd** codi'r mater unwaith eto gyda'r Cyngor Sir.

II. Tynnodd y Cyng. Lyn Williams sylw at gyflwr gwael yr arwyddbost ar droad y Capel yng Nghribyn. Penderfynwyd cysylltu ag Adran y Priffyrdd i'w hysbysu o'i chyflwr ac y galla'i fod o beryg i'r cyhoedd pe bae'n cwympo.

III. **Ysgol Cribyn**. Gofynnodd y Cadeirydd i'r Cyng.Lynford Thomas am ddiweddariad ynglŷn â'r hyn sy'n digwydd i Ysgol Cribyn a disgyblion yr Uned Cyfeirio (PRU) gan fod Cymdeithas Clotas Cribyn yn defnyddio'r adeilad i gynnal llu o weithgareddau. Cadarnhaodd Y Cyng. Thomas bod yna gynlluniau ar y gweill i gau'r Uned ond bod Mr. Barry Rees, Cyfarwyddwr Corfforaethol Cyngor Sir Ceredigion, wedi rhoi addewid pe bae'r adeilad yn cael ei werthu mai Cymdeithas Clotas Cribyn fydd yn cael y cynnig cynta'.

IV. **A200056. Tir gyferbyn â Moiddyn Fawr.**Tynnwyd sylw at y ffaith y bydd y cais hwn yn dod i sylw y Cynghorwyr cyn bo hir.

V. Yn dilyn marwolaeth sydyn Mr. Ken Davies, Felinfach, casglwyd cyfraniadau tuag at ddiffibrilwyr i'r ardal. Dymuniad y teulu yw i drosglwyddo'r arian i'r Cyngor Cymuned i'w weinyddu ar eu rhan. **Penderfynwyd y**n unfrydol i gysylltu â'r Archwilydd Mewnol i sicrhau nad oedd hyn yn achosi problem o ran y cyfrifon.

11. **DYDDIAD A LLEOLIAD Y CYFARFOD NESAF**

Nos Fawrth, 11eg Chwefror, 2020 yn Neuadd Felinfach

.